Hawdd ei Ddeall

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Beth rydyn ni wedi ei wneud rhwng 2023 a 2024

Adroddiad am waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Cymru Can

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan y **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Blynyddol 2023-24**'.

Medi 2024

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 18**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn gmeddwl **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'i dîm**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: cenedlaethaurdyfodol.cymru

Ebost: cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbol 403527247

Cynnwys

Beth rydyn ni wedi ei wneud rhwng 2023 a 2024.....4

Beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2024 a 2025 18

Geiriau anodd..... 20

Beth rydyn ni wedi ei wneud rhwng 2023 a 2024



Mae deddf yng Nghymru o'r enw **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Fe ddaeth allan yn 2015.

Nod y ddeddf yma ydy gwneud Cymru'n lle gwell i fyw nawr ac yn y dyfodol.

Rhaid i Weinidogion Cymru a llawer o sefydliadau yng Nghymru ddilyn y ddeddf yma.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ydy **Derek Walker**. Ei waith ef ydy gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yng Nghymru yn dilyn y ddeddf yma.



Rydyn ni wedi gwneud cynllun newydd ar gyfer ein gwaith rhwng 2023 a 2030. Enw'r cynllun ydy **Cymru Can**.



Mae gan Cymru Can 5 nod mawr. Rydych chi'n gallu darllen fersiwn hawdd ei ddeall o Cymru Can yma.

Dyma rai o'r pethau rydyn ni wedi'u gwneud tuag at bob un o'r 5 nod mawr.

1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Rydyn ni wedi gwneud canllaw a rhoi cyngor i helpu sefydliadau i ddilyn y ddeddf.

- Rydyn ni yn cynnal sesiynau hyfforddi.

- Rydyn ni wedi edrych ar waith Llywodraeth Cymru.

- Rydyn ni wedi rhoi cyngor am gynlluniau llesiant i **Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**. Ac rydyn ni wedi dod â nhw at ei gilydd i gyfnewid syniadau.

Mae **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** yn grwpiau o arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella llesiant yn eu hardal.

- Rydyn ni yn edrych ar **amcanion llesiant**. Mae'r rhain yn nodau mae **cyrff cyhoeddus** wedi'u gosod i'w helpu i wella eu cymunedau.

Mae **cyrff cyhoeddus** yn sefydliadau fel y GIG, cynghorau lleol a llawer o rai eraill.

2. Hinsawdd a natur

Mae'r **hinsawdd** yn meddwl tywydd. Mae **newid yn yr hinsawdd** yn newidiadau mawr yn y tywydd. Er enghraifft, mae lleoedd yn mynd yn gynhesach, yn wlyb, neu'n sychach. Mae'r newidiadau yma yn achosi i bethau fel stormydd waethygu, creu llifogydd a thanau gwyllt.

- Mae **cyrff cyhoeddus** yn gosod nodau mwy ar gyfer **hinsawdd** a natur o'i gymharu â 2019.

- Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda grŵp o'r enw **Grŵp Her Sero Net 2035**. Roedd hyn er mwyn gwneud cynllun 10 mlynedd i stopio **newid hinsawdd** rhag gwaethygu.

- Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ddod ag arweinwyr **cyrff cyhoeddus** at ei gilydd, i siarad am **Ras i Sero**. Mae hwn yn brosiect byd-eang i haneru faint o nwy niweidiol rydyn ni yn ei ollwng i'r .

- Rydyn ni wedi ymuno â grŵp o'r enw **UK Adaptation Hub**. Mae'n paratoi'r DU i ddelio â newidiadau yn y tywydd sydd yn cael ei achosi gan **newid hinsawdd**.

- Rydyn ni wedi cefnogi sefydlu **Gwasanaeth Natur Cymru**. Mae hwn yn brosiect sy'n ceisio gwella natur trwy hyfforddiant a swyddi.

- Rydyn ni wedi ymateb i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â gwneud yn siŵr bod deddfau yng Nghymru yn helpu i ddiogelu ein hamgylchedd.

3. Iechyd a llesiant

- Rydyn ni wedi darganfod nad oedd digon o **amcanion llesiant** yn siarad am iechyd. Ac roedd llai fyth yn siarad am ddelio ag achosion afiechyd.

- Fe wnaethon ni helpu i gael cyllid ar gyfer prosiect o'r enw **Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru**. Mae hyn yn meddwl gweithio gyda'n gilydd i wella iechyd a llesiant.

- Rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag **Iechyd Cyhoeddus Cymru** a sefydliadau eraill.

- Fe wnaethon ni roi cyngor ar y ffordd orau o wario arian cyhoeddus yng Nghymru i:
  - stopio ein hiechyd rhag gwaethygu
  - a'n stopio rhag mynd yn sâl yn y lle cyntaf.

- Fe wnaethon ni wneud **canllaw** i helpu sefydliadau iechyd i gynllunio ar gyfer y dyfodo.

4. Diwylliant a'r Gymraeg

Diwylliant ydy'r syniadau, y credoau, y traddodiad a'r hanes rydyn ni yn eu rhannu.

- Fe wnaethon ni ddysgu nad ydy llawer o bobl yn deall pwysigrwydd **diwylliant** i lesiant.

- Fe wnaethon ni gefnogi **cyrff cyhoeddus** i ychwanegu mwy o waith am gefnogi **diwylliant** yn eu cynlluniau.

- Fe wnaethon ni ofyn am **Strategaeth Diwylliant Genedlaethol**. Fe fyddai hwn yn gynllun mawr ar gyfer amddiffyn ein **diwylliant** yng Nghymru.

- Fe wnaethon ni ddechrau prosiect ymchwil gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Fe fydd y prosiect yma yn edrych ar sut mae **newid yn yr hinsawdd** yn gallu effeithio ar ein **diwylliant**. A sut rydyn ni'n gallu ei amddiffyn. Er enghraifft, sut rydyn ni'n gallu diogelu pethau fel ein cestyll a'n hadeiladau hanesyddol?

5. Yr economi

Yr **economi** ydy'r ffordd mae pobl yn gwario arian a'r ffordd mae pobl yn gwneud arian mewn gwlad.

- Fe wnaethon ni roi cyngor i Lywodraeth Cymru am eu cynlluniau **economi**.

- Fe wnaethon ni roi tystiolaeth i'r Senedd ar yr **economi** werdd. Mae hyn yn meddwl gwario a gwneud arian mewn ffyrdd sy'n well i'r amgylchedd.

- Rydyn ni eisiau i wasanaethau sy'n cefnogi busnesau yng Nghymru ddangos yn well sut maen nhw'n dilyn y Ddeddf.

- Fe fyddwn ni yn gweithio'n agosach gyda llywodraeth leol ar eu cynlluniau **economi** ar gyfer eu hardaloedd lleol.

- Rydyn ni wedi rhoi cyngor i lawer o fusnesau Cymru ynglŷn â dilyn y Ddeddf.

Gwaith arall rydyn ni wedi'i wneud

Bwyd

Rydyn ni wedi edrych ar arferion bwyd a bwyta yng Nghymru. Er enghraifft:

- bwyd sothach
- gwastraff bwyd
- ac mae pris bwyd yn codi.

Rydyn ni wedi rhoi cyngor i **gyrff cyhoeddus** am hyn. A sut maen nhw'n gallu meddwl am fwyd yn eu cynlluniau llesiant.

Rydyn ni wedi gofyn am lunio cynllun am fwyd yng Nghymru.

Gweithio gyda gwledydd eraill

Fe fyddwn ni yn mynd i ddigwyddiad y **Cenhedloedd Unedig** ym mis Medi 2024. Dyma **Uwchgynhadledd y Dyfodol**.

Mae hyn am helpu gwledydd i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae gennym ni lawer o brofiad a syniadau i'w rhannu.

Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol

Rydyn ni yn parhau i redeg ein prosiect ar gyfer pobl ifanc. Ei enw ydy **Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol**.

Fe wnaeth 35 o bobl ddod i'r Academi rhwng 2023 a 2024.

Roedden nhw wedi deall **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn well. Ac wedi gwella eu sgiliau arweinyddiaeth, eu hyder a'u gwybodaeth.

Arwain trwy esiampl

Rydyn ni wedi gwneud gwaith yn ein sefydliad ein hunain. Er enghraifft:



- Rydyn ni wedi gwneud cynlluniau ac wedi rhoi hyfforddiant i staff am weithio mewn ffyrdd sy'n well i'n hamgylchedd.

- Mae ein gweithle yn cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd.

- Mae gennym ni gynllun i sefyll yn erbyn hiliaeth.

- Rydyn ni yn talu cyflog byw go iawn i'n staff. Mae hyn yn meddwl bod ein cyflog yn seiliedig ar gostau byw.

Beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2024 a 2025

Rhai o'r pethau fyddwn ni yn eu gwneud ydy:

- Rhoi mwy o hyfforddiant a chyngor i **gyrff cyhoeddus**.

- Rhoi cyngor am **newid yn yr hinsawdd**, natur a materion eraill.

- Gweithio i gael Strategaeth Fwyd genedlaethol i Gymru.

- Edrych ar sut mae Llywodraeth Cymru yn gwario ei harian.

- Creu canolbwynt fel bod pobl yn gwybod i ddod atom i gael cyngor arbenigol ar feddwl a chynllunio tymor hir.

- Gwneud ein **Hacademi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol** hyd yn oed yn fwy.

- Dal ati i wella ein hunain.

Geiriau anodd

Amcanion llesiant

Mae'r rhain yn nodau mae cyrff cyhoeddus wedi'u gosod i'w helpu i wella eu cymunedau.

Cyrff cyhoeddus

Sefydliadau fel y GIG, cynghorau lleol a llawer o rai eraill ydy'r rhain.

Diwylliant

Diwylliant ydy'r syniadau, y credoau, y traddodiad a'r hanes rydyn ni yn eu rhannu.

Economi

Yr economi ydy'r ffordd mae pobl yn gwario arian a'r ffordd mae pobl yn gwneud arian mewn gwlad.

Newid hinsawdd a hinsawdd

Mae'r hinsawdd yn meddwl tywydd. Mae newid yn yr hinsawdd yn newidiadau mawr yn y tywydd. Er enghraifft, mae lleoedd yn mynd yn gynhesach, yn wlyb, neu'n sychach. Mae'r newidiadau yma yn achosi i bethau fel stormydd waethygu, creu llifogydd a thanau gwyllt.